

PWYLLGOR CYNLLUNIO

Dydd Iau, 16 Medi 2021

YN BRESENNOL: Y Cyngorydd A. Lenny (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:

S.M. Allen, J.M. Charles, D.M. Cundy, I.W. Davies, J.A. Davies, W.T. Evans,
S.J.G. Gilasbey, J.K. Howell, J.D. James, C. Jones, D. Jones, H.I. Jones, M.J.A. Lewis,
K. Madge, B.D.J. Phillips, G.B. Thomas a/ac J.E. Williams

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:

N. Daniel, Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Cynllunio
I.R. Llewelyn, Rheolwr Blaen-gynllunio
H. Towns, Rheolwr Mwynau a Gwastraff Rhanbarthol
J. Thomas, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (Aman Gwendraeth)
S. Murphy, Uwch-gyfreithiwr
P. Roberts, Swyddog Rheoli Datblygu
Z.A. Evans, Uwch-dechnegydd [Cyswllt Cynllunio]
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
S. Hendy, Swyddog Cefnogi Aelodau
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP - 10.00 yb 1.30 yp a 2.00 yp - 2.30 yp

(NODER:

- Am 1:00pm tynnwyd sylw'r Pwyllgor at Reol 9 o Weithdrefn y Cyngor – Hyd y cyfarfod – ac, oherwydd bod y cyfarfod wedi bod yn mynd rhagddo ers tair awr, penderfynwyd gohirio ystyried y rheolau sefydlog, yn unol â Rheol 23.1 o Weithdrefn y Cyngor, er mwyn galluogi'r Pwyllgor i gwblhau'r gwaith a oedd yn weddill ar yr agenda.
- Torrodd y Pwyllgor am ginio am 1.30pm gan ailymgynnull am 2.00pm.]

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Y Cyngorydd	Rhif y Cofnod	Y Math o Fuddiant
M. Charles	3: PL/01737 – Preswylfa ddeulawr newydd yn lle'r hen un, Pencae, Llanarthne, Caerfyrddin, SA32 8JP	Ymgeisydd yn berthynas agos.

3. PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

PENDERFYNWYD caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau y manylwyd arnynt yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-

W/20622	<p>Datblygu hyd at bymtheg o dai a ffordd fynediad gysylltiedig - Tir ym Mronwydd Arms, Caerfyrddin.</p> <p>(NODER: 1.Mae caniatâd hefyd yn amodol ar Gytundeb Adran 106 sy'n cynnwys cyfraniad tuag at gyfleusterau chwarae yn yr ardal. 2. Y Pennaeth Cynllunio i gael ei awdurdodi i drafod cyfraniad gyda'r datblygwr a rhoi gwybod i'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd Cynllunio am y trafodaethau hynny)</p>
S/40672	<p>Gwaredu amodau 4 (Deiliaid a'u dibynyddion), 5 (Adfer tir) a 6 (Caniatâd dros dro am 4 blynedd) o S/38535 – Helaethu'r Safle Teithwyr a roddwyd ar 28/02/20 – Tir Hillside View, Yr Hendy, Llanelli, SA14 8JX.</p>
PL/00103	<p>Cadw'r llecyn manwerthu presennol ac 1 fflat breswyl a chreu 4 fflat breswyl hunangynhwysol ychwanegol o fewn ôl troed byngalo preswyl pâr. Cynigion i gynnwys adeiladu estyniad dormer i'r to er mwyn hwyluso datblygiad yn 45 Heol Penllwynrhodyn, Llwynhendy, Llanelli, SA14 9NN.</p> <p>(NODYN 1. Am 1:00pm, wrth ystyried y cais hwn, tynnwyd sylw'r Pwyllgor at Reol 9 o Weithdrefn y Cyngor – Hyd y cyfarfod – ac, oherwydd bod y cyfarfod wedi bod yn mynd rhagddo ers tair awr, penderfynwyd gohirio ystyried y rheolau sefydlog, yn unol â Rheol 23.1 o Weithdrefn y Cyngor, er mwyn galluogi'r Pwyllgor i gwblhau'r gwaith a oedd yn weddill ar yr agenda. 2. Ar ôl penderfynu ar y cais hwn, torrodd y Pwyllgor am ginio am 1.30pm gan ailymgynnull am 2.00pm.]</p>
PL/00588	<p>Cais am faterion a gadwyd yn ôl ar gyfer 13 preswylfa a rhyddhau amodau cysylltiedig 4,5,6,7,8,9,10,11 a 12 yn unol â chaniatâd amlinellol (cyf S/36817) – Tir yn hen Wasanaeth Labordy Cenedlaethol CNC, Lôn Pen y Fai , Ffwrnes, Llanelli, SA15 4EL.</p> <p>Roedd sylw wedi dod i law gan breswilydd lleol ynghylch mynediad i'w eiddo wrth adeiladu'r datblygiad, pe bai caniatâd cynllunio'n cael ei roi, a gofynnodd am sicrwydd y byddai mynediad yn cael ei gynnal bob amser. Roedd hefyd o'r farn y byddai ymweliad safle (fel y cytunwyd gan y pwyllgor ar 27 Mai) o fudd i drigolion lleol.</p> <p>Rhoddodd y Cadeirydd wybod ei fod wedi derbyn llythyr gan breswilydd lleol ac aeth ymlaen i ddarllen ei gynnwys i'r pwyllgor. Roedd yn cynnwys cyfeiriad at leoliad lleiniau 2,3 a 4 o fewn y datblygiad sy'n edrych dros ei eiddo ac y byddai o ganlyniad, yn colli preifatrwydd ynghyd ag</p>

	awgrym y dylid cyfyngu'r datblygiad i 10 o breswylfeydd. Ymatebodd yr Asiant a'r Swyddog Rheoli Datblygu i'r materion a godwyd.
PL/01737	Preswylfa ddeulawr newydd yn lle'r hen un – Pencae, Llanarthne, Caerfyrddin, SA32 8JP (NODER: Gan fod y Cynghorydd M. Charles eisoes wedi datgan buddiant yn y cais hwn yn gynharach, gwnaeth ail-ddatgan y buddiant hwnnw a gadawodd y cyfarfod ac ni wnaeth gymryd rhan yn y penderfyniad yn ei gylch)
PL/02156	Estyniad llawr cyntaf yng nghefn yr eiddo, adeiladu tŷ allan preswyl ategol yn lle'r hen un a datblygiad cysylltiedig iddo - Dros Y Môr, 3 Penllech, Y Pwll, Llanelli, SA15 4AN

4. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 19 AWST 2021

PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 19 Awst 2021 yn gofnod cywir.

CADEIRYDD

DYDDIAD

[SYLWER: Mae'r cofnodion hyn yn dilyn trefn y materion oedd ar agenda'r cyfarfod, a allai fod yn wahanol i drefn y materion mewn unrhyw weddarllodiad gan y byddid wedi ymdrin gyntaf ag unrhyw geisiadau yr oedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol i siarad amdanynt.]